# Cylchlythyr Dosbarth Tryfan Ionawr 2023

## Ysgol Tregarth

### Croeso yn ôl!

Hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i pob un ohonoch. Rwy'n gobeithio eich fod wedi mwynhau'r gwyliau Nadolig. Byddem yn parhau hefo'r un drefn staffio yn nosbarth Tryfan y tymor hwn, ac yn edrych ymlaen am dymor llawn hwyl a llwyddiant gyda'r plant.



Miss Lowri Bohana



Miss Bethan Briggs

### Thema

Yn hytrach na dewis thema yn ystod y tymor yma, byddem yn edrych ar gwestiwn mawr. Yna, yn ystod y tymor byddem yn edrych ar themâu gwahanol o fewn y cwestiwn. Ein cwestiwn tymor yma yw 'Sut mae pethau'n gweithio?' Yn ystod y thema byddem yn edrych ar y corff, egni a grymoedd, a dyfeisio cynhyrchion wrth fod yn greadigol. Bydd y plant yn cael cyfle i ysgrifennu llythyr (Saesneg), stori ddychmygol, adolygiad a thaflen wybodaeth. Bydd cynllun llais y rhieni yn cael ei rannu allan er mwyn i chi a'ch plentyn rannu syniadau ynglŷn â thasgau/gweithgareddau gallwn ei wneud ar lawr y dosbarth neu tu allan. Gwerthfawrogwn cymaint o ymateb a syniadau a phosib yn ôl os gwelwch yn dda. Os oes gennych chi arbenigedd neu unrhyw gysylltiadau gyda rhywun all gynnig unrhyw beth i'w wneud a'r thema, plîs rhowch hynny lawr ar y cynllun.

### Darllen

Bydd sesiynau darllen yn cael eu cynnal yn ddyddiol, byddaf yn darllen gyda phob plentyn yn unigol yn ystod yr wythnos. Mae'r plant yn cael cyfle i ddarllen gydag oedolyn, yn annibynnol, darllen a deall a chwarae gemau iaith yn ystod yr wythnos.
Rydym yn annog y plant i ddarllen yn rheolaidd, gofynnwn yn garedig i chi ddarllen gyda'ch plentyn yn ddyddiol gan gofnodi sylwadau yn y cofnod darllen. Bydd angen iddynt gadw eu cofnod darllen a'u llyfrau yn y waled blastig a dod ag ef i'r ysgol pob dydd Gwener er mwyn gallu gwirio'r sylwadau a newid eu llyfrau darllen.

Byddem yn darllen ac yn defnyddio sawl llyfr yn ystod y thema hwn. Yn cynnwys llyfrau Wallace and Grommit, David Macawlay, Until I met Dudley, Rosie Reveer: engineer ag amrywiaeth o lyfrau eraill yn ymwneud a'r thema.

Bydd llyfrau ar gael ar-lein i ddarllen drwy hwb (prosiect x a choeden Rhydychen) a bydd modd i'r plant ddewis llyfrau o'r ysgol i fynd adref gyda nhw. Dyma ychydig o ddolenni er mwyn ymarfer llythrennedd y disgyblion;

https://hwb.gov.wales/search?query=coeden+rhydychen
https://hwb.gov.wales/search?query=prosiect+x
https://www.j2e.com/j2blast
https://wordwall.net/



### Mathemateg

Bydd sgiliau Mathemateg a rhifedd y disgyblion yn cael ei ddatblygu'n ddyddiol. Ein ffocws y tymor hwn bydd arian, amser a siâp yn bennaf. Bydd yn wych os byddai'r plant yn gallu gael y cyfle i ymdrin ag arian cyn gymaint â phosib i gefnogi dealltwriaeth. Os oes ganddynt oriawr(watsh), byddai gwysgo hwnnw a chyfeirio ato'n rheolaidd yn syniad da hefyd. Dyma ychydig o ddolenni er mwyn ymarfer sgiliau rhif y disgyblion;

Toy Shop Money Game (GBP) - Topmarks
Coins Game for 4-10 year olds (topmarks.co.uk)
Early Years Money Games for 5-8 Year Old | MoneySense (mymoneysense.com)
Telling the Time - Mathsframe
Telling Time For Children - Learning the Clock - YouTube
3D Shapes Games for Kids Online - SplashLearn

### Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod bob hanner tymor sy'n ymwneud a'r thema. Bydd tri neu bedwar tasg/prosiect gwahanol yn cael eu rhannu allan a modd i'ch plentyn ddewis pa dasg i gwblhau dros yr hanner tymor. Bydd hi'n bosib cwblhau mwy na un dasg os dymunir. Bydd y gwaith cartref yma yn cael ei rannu allan yn ystod yr wythnos nesaf.
Bydd y prawf sillafu yn parhau i gael ei gynnal yn wythnosol ar fore Llun.

### Addysg cydberthynas a rhywioldeb

# Cylchlythyr Dosbarth Tryfan Ionawr 2023

Yn ystod y tymor, byddwn yn edrych ar elfen 'Perthynas a hunaniaeth'. Bydd hyn yn cynnwys dysgu am perthnasau teg, pharchus a charedig. Byddwn hefyd yn dysgu am sut i gyfathrebu gyda eraill, gwneud penderfyniadau, rheoli gwrthdaro, a pharchu hawliau eu hunain ac eraill. Bydd cyfle hefyd i ddysgu am normau cymdeithasol, teuluoedd amrywiol, hapusrwydd, hunaniaeth, cydraddoldeb, a stereoteipio.

## Trefn Staffio'r Dosbarth

Bydd eich plentyn yn parhau i gael sesiwn addysg gorfforol bob prynhawn dydd Mercher, ac mae'n angenrheidiol cael dillad addas (siorts, crys T a trainers neu ddillad cynnes i fynd allan) i newid iddynt er mwyn gallu cymryd rhan. **Bydd ymarfer corff yn cychwyn ar ddydd Mercher, Ionawr 18fed**. Bydd y plant yn cychwyn eu sesiynau **nofio dydd Llun, Ionawr 16eg.** Mae fwy o wybodaeth ar my school app, bydd angen dod â dillad addas ar gyfer nofio pob wythnos nes daw'r sesiynau i ben. Bydd y plant yn gael gwers addysg gorfforol gyda Mr Roberts ar brynhawn dydd Mercher, ac yna wers celfyddydau mynegiannol gyda Miss Griffiths.

Amserlen Wythnosol:

| Dydd | Athro / Athrawes y dosbarth | Sgiliau / Pynciau a ddatblygwyd |
|---|---|---|
| Dydd Llun – Gwener | Miss Lowri Bohana | Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>Celfyddydau Mynegiannol<br>Dyniaethau<br>Iechyd a Lles |
| Prynhawn Mercher<br>Sesiwn 1 (Blwyddyn 3 a 4)<br>Sesiwn 2 (Blwyddyn 5 a 6) | Miss Griffith | Celfyddydau mynegiannol |
| Prynhawn Mercher<br>Sesiwn 1 (Blwyddyn 5 a 6)<br>Sesiwn 2 (Blwyddyn 3 a 4) | Mr Carwyn Roberts | Iechyd a lles |

## SeeSaw

Rydym yn parhau i ddefnyddio SeeSaw fel modd o rhannu gwath a negesuon bwysig gyda chi. Rhowch wybod i mi os oes angen côd newydd arnoch os nad ydych wedi llwyddo mewngofnodi eto. Gofynnwn yn garedig i chwi gysylltu ar ysgol yn uniongyrchol nid drwy Seesaw ynglŷn â phresenoldeb, apwyntiadau, salwch, pryder neu gwestiynau generig.

## Atgoffa Cyffredinol

**Amser cychwyn –** Mae angen i bob plentyn gyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn **8:50yb.**

**Amser Gorffen** – Mae'r disgyblion yn gorffen am **3:30yp**.

**Ffrwyth** - Caniateir i blant ddod a diod o ddŵr a ffrwyth i'r ysgol i fwyta yn ystod amser egwyl.

Os oes gan blant adnoddau, llyfrau, darnau o waith sy'n cyd-fynd a thema'r dosbarth ac y byddent yn hoffi eu rhannu gyda'r dosbarth, gwych. Rwyf yn gofyn yn garedig nad yw plant yn dod a theganau na gwrthrychau eraill i'r ysgol.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad

Miss Lowri Bohana